# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2011** |
| Amser: | **08:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Peter Black**<br>**Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Nick Ramsay** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor fel rhai a oedd yn barod i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

### 3(i) Busnes yr wythnos hon

Nododd y Pwyllgor Busnes ei fod yn bosibl y bydd Dirprwy Lywydd dros dro yn cael ei ethol ar ddechrau'r cyfarfod yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn yr amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau i'r Comisiwn o 15 munud i 30 munud.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y bydd pleidleisio ar y cynigion a ganlyn yn digwydd ar ddiwedd yr eitem berthnasol:

- Cynnig o dan adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas ag anghymhwyso Aled Roberts (15 munud)

- Cynnig o dan adran 17(30) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas ag anghymhwyso John Dixon (15 munud)

Ddydd Mawrth, bydd pleidleisio ar yr holl eitemau eraill yn cael ei ohirio tan y Cyfnod Pleidleisio, a fydd yn digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd y Cyfnod Pleidleisio yn digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

Nododd y Pwyllgor Busnes drefn busnes ar gyfer 5 a 6 Gorffennaf.

3(ii) **Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

O ystyried bod y Llywodraeth wedi trefnu dadl ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ar y Bil Lleoliaeth ar 12 Gorffennaf, cytunodd y Rheolwyr Busnes i wahodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i adrodd ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol cyn iddo gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf.

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad, yn amodol ar y penderfyniadau a wnaed o dan eitemau 3(iv) a 3(v).

3(iv) **Dadleuon ar gynigion a gynigir gan Aelodau unigol**

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar y meini prawf ar gyfer dethol cynigion ar gyfer dadleuon a gyflwynir gan Aelodau unigol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylai dadleuon Aelodau unigol fynd rhagddynt ar gynnig terfynol y gellir ei ddiwygio, gyda chefnogaeth Aelodau o leiaf tair plaid. Cytunwyd y dylid eu gwaredu drwy bleidlais. Cytunodd y Pwyllgor i drefnu dadl awr o hyd yn hanner cyntaf tymor yr hydref i ddechrau, ac i adolygu'r meini prawf os oes angen, yn sgîl y galw am slotiau.

3(v) **Amserlen y Cynulliad**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen newydd ar gyfer y Cynulliad o fis Medi 2011 ymlaen, sy'n cynnwys:

- yr amser sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau plaid;

- y dyddiadau a'r amserlen ar gyfer cwestiynau llafar;

- y modd y caiff amser ei rannu rhwng busnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad:

| Y Cyfarfod Llawn | Math o fusnes | Amser a neilltuwyd |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth, 13.30 | Busnes y Llywodraeth | 4 awr |
| Dydd Mercher, 13.30 | Busnes y Llywodraeth | 1.5 awr |
| | Busnes y Cynulliad | 3.5 awr |

o dyddiadau **arfaethedig** ar gyfer y toriadau, sef:

- **Pasg** – Dydd Llun 2 Ebrill 2012 – Dydd Sul 22 Ebrill 2012
- **Sulgwyn** – Dydd Llun 4 Mehefin 2012 – Dydd Sul 10 Mehefin 2012
- **Haf** – Dydd Llun 23 Gorffennaf 2012 – Dydd Sul 23 Medi 2012

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amser a gaiff ei neilltuo gan y Cynulliad ar gyfer y mathau o ddadleuon a ganlyn:

- o dadleuon y gwrthbleidiau – neilltuo'r hyn sy'n weddill o amser y Cynulliad ar gyfer dadleuon y gwrthbleidiau, gan gylchdroi rhwng grwpiau (fel y cytunwyd ar 8 Mehefin 2011).
- o dadleuon Aelodau unigol – fel y cytunwyd o dan eitem 3(iv) uchod.
- o y Ddadl Fer – yn wythnosol ar ddydd Mercher am 30 munud.

## 4. Pwyllgorau

### 4(i) Amserlen y Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddull o amserlennu pwyllgorau, ond cytunodd i geisio barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch yr amser a fyddai'n well ganddo, sef naill ai prynhawn Mawrth neu brynhawn Iau.

### 4(ii) Amserlen y gyllideb

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch y terfyn amser ar gyfer y Pwyllgor Cyllid i adrodd ar gyllideb ddrafft 2012-13, a chytunwyd ar 8 Tachwedd 2011. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb, yn unol â Rheol Sefydlog 20.4.

## 5. Rheolau Sefydlog

### 5(i) Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad - adroddiad drafft

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes adroddiad drafft ar y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn sgîl y bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad ym mis Mawrth, a chymeradwywyd yr adroddiad.  arno. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog ar gyfer trafodaeth y Cynulliad ddydd Mercher 13 Gorffennaf 2011.

**Busnes Arall**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfarfod yn gyhoeddus ar 12 Gorffennaf (8.50 – 9.30) i drafod y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n weddill yn sgîl y Refferendwm (Gorchmynion adran 109).